# CROESO I GIWBA

**...ble mae clybiau cyfrifiadur rhad ac am ddim yn ffynnu! Digon o le i bawb yma! Mae gan hyd yn oed yr ysgolion mwyaf bach yn y lleoedd mwyaf anghysbell gyfrifiadur!**

Mae silffoedd siopau Ciwba yn wag gan fod popeth yn cael ei ddogni yno yn union fel roedd hi yma yn ystod yr Ail Ryfel Byd

Ewch i siop ac fe welwch chi halen neu siwgwr mewn sachau a'r siopwr yn pwyso'r rheini cyn gwerthu llond dwrn i gwsmer. Gallech daeru eich bod mewn siop o Oes Fictoria. Nes i chi sylwi ar y cyfrifiaduron syn llenwi'r silffoedd. Ond pam nad ydyn nhw'n gwerthu? Mae'n rhaid cael sêl bendith y Llywodraeth i brynu un – sy'n cael ei wrthod yn amlach na pheidio. Yn yr un modd mae mynediad i'r we yn cael ei fonitro ac mae mynd ar safweoedd Americanaidd yn cael ei wahardd. Dydy llywodraeth Comiwnyddol Ciwba ddim am i bobl y wlad weld beth sy'n digwydd mewn gwledydd eraill rhag ofn i hynny wneud i nhw deimlo'n anniddig.

Yn Emiriaeth Unedig Arabia gwaherddir mynediad i unrhyw safwe a ystyrir yn 'anghyson â





gwerthoedd crefyddol, diwylliannol a moesol y wlad'. Golyga hyn unrhyw safwe sy'n cwestiynu pŵer y teuluoedd sy'n rheoli ardal y Gwlff.

Bellach mae gosod sensoriaeth eithafol ar y defnydd o'r we yn drefn naturiol mewn sawl gwlad e.e. Burma, Lybia, Saudi Arabia, Syria ond yn waeth fyth mae defnyddwyr y we wedi cael eu carcharu mewn gwledydd fel Fietnam a Tunisia – gyda 60 wedi eu carcharu yn China.

Un ohonynt yw'r newyddiadurwr Shi Tao a gafodd ei garcharu am 10 mlynedd am yrru ebost oedd yn amlinellu'r cyfyngiadau roedd Llywodraeth China yn bwriadu eu rhoi ar adroddiadau newyddiadurwyr ar ddathliadau 15 mlynedd y lladd ar Sgwâr Tiananmen.

A phwy gynorthwyodd awdurdodau China i'w ddal? Yahoo! Roedd y cwmni, yn ôl eu llefarydd, wedi cael 'cais cyfreithiol am wybodaeth ac wedi ymateb i'r cais yn unol â gofynion cyfreithiol'.